**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

30 Hydref 2025

Annwyl Rebecca,

**Cytundeb Cynhwysfawr rhwng y DU ac India o ran yr Economi a Masnach**

Nododd y Pwyllgor â diddordeb fod y DU ac India wedi llofnodi Cytundeb Cynhwysfawr o ran yr Economi a Masnach ('y Cytundeb') ym mis Gorffennaf 2025.

Rydym yn croesawu'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych i'r Pwyllgor yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Gorffennaf, pan wnaethom drafod y Cytundeb a pherthynas fasnachu Cymru ag India, gan gynnwys eich ymrwymiad i gyhoeddi dogfen safbwyntiau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r ddogfen hon at y Pwyllgor. Os nad yw'r ddogfen ar gael eto, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar y gwaith o lunio'r ddogfen a'r dyddiad cyhoeddi disgwyliedig.

Yng ngoleuni datblygiadau masnach fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym, byddai hefyd o gymorth i'r Pwyllgor pe gallech rannu eich canfyddiadau cynnar ar yr agweddau isod ar y Cytundeb a allai fod y tu allan i gwmpas y ddogfen safbwyntiau.

- Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y gallai'r Cytundeb fod werth £80 miliwn i economi Cymru, ac y gallai roi mynediad i ddefnyddwyr Cymru at nwyddau rhatach. Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, beth yw prif effeithiau'r Cytundeb ac a ydynt yn cyd-fynd â chanfyddiadau Llywodraeth y DU?
- A fydd yr asesiad yn manylu ar i ba raddau y mae'r Cytundeb yn gydnaws ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn ei phapur polisi masnach yn 2024?

- Beth yw goblygiadau'r Cytundeb i ddiwydiant dur Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 21 Tachwedd.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg